



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

## Y Pwyllgor Archwilio



Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru

Adroddiad Pwyllgor AC(3) 07-08  
Medi 2008

Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)

Gallwch gael rhagor o gopiau o'r adroddiad hwn gan:  
Y Pwyllgor Archwilio  
Gwasanaeth y Pwyllgor  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffon: 029 2089 8617  
Ffacs: 029 2089 8021

Ebost: [Audit.Comm@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Audit.Comm@Wales.gsi.gov.uk)

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Medi 2008 yn unol ag adran 143(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

### Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru

Cynnwys	Paragraffau
<b>Crynodeb ac argymhellion</b>	1-14
<b>Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru</b>	
Mae'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref wedi helpu i gyflawni rhai gwelliannau o ran arbed ynni yn y cartref yng Nghymru ond mae maint y cynnydd yn anodd ei fesur	15-37
I fwrw ymlaen â'u strategaeth arbed ynni, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad a chynghorau ganolbwyntio ar y sector preifat ac ar sicrhau newidiadau mewn arferion defnyddwyr	38-52

#### ATODIADAU

Atodiad A Trafodion perthnasol y Pwyllgor Archwilio, dydd Iau, 15 Mai 2008

## Crynodeb

1. Daeth y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 i rym yng Nghymru o 1 Ebrill 1997. Hwn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i osod cyfrifoldeb ar gynghorau o ran arbed ynni, a 'roedd yn adlewyrchu pryderon oedd yn dod i'r amlwg ar y pryd am lefel uchel tlodi tanwydd a'r angen i ostwng allyriadau carbon.
2. Yr oedd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru ddatblygu cynllun effeithlonrwydd ynni dros gyfnod o 10 mlynedd yn dechrau yn Ebrill 1997 oedd yn nodi camau yr oedd cynghorau'n eu hystyried yn ymarferol, yn gost-effeithiol ac a oedd yn debygol o arwain at welliannau sylweddol yn effeithlonrwydd ynni'r stoc tai preswyl yn eu hardaloedd. Yna cafodd gwelliannau sylweddol eu diffinio fel gwelliant o 30 y cant yn effeithlonrwydd ynni domestig dros gyfnod 10 mlynedd y cynlluniau. Yr oedd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor fesur a chyflwyno adroddiad yn flynyddol ar ei gynnydd yn ôl ei gynllun.
3. Yn 2004, aeth y cyfan o'r 22 cyngor yng Nghymru i mewn i gytundebau polisi gyda Llywodraeth y Cynulliad, oedd yn cynnwys nifer o dargedau ar gyfer gwelliant. Yr oedd y cytundebau'n cynnwys targed ar gyfer gwella o ran effeithlonrwydd ynni yn y cartref dros yr un cyfnod 10 mlynedd â tharged 30 y cant y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, ond ym mhob achos yr oedd targedau'r cytundebau polisi yn llawer llai uchelgeisiol.
4. Ar sail adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol<sup>1</sup> fe wnaethom graffu a ellid, yng ngoleuni cynnydd a wnaethpwyd ers cyflwyno'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, sicrhau lleihad pellach yn y defnydd o ynni trwy'r sector tai yng Nghymru, a beth a ellid bod ei angen yn y dyfodol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Clywsom dystiolaeth gan Mr Matthew Quinn, Cyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn Llywodraeth y Cynulliad, a Mr Tim Peppin, y Cyfarwyddwr Adfywio a Chynaliadwyedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
5. Yn gyffredinol, fe ddaethom i'r casgliad, er bod y data yn annibynadwy, fe ymddengys bod gwelliannau arwyddocaol yn y stoc dai yng Nghymru o ran effeithlonrwydd ynni dros y cyfnod dan sylw gan y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref. Mae'r gwelliannau mwyaf amlwg yn y sector tai cymdeithasol. Er gwaethaf hyn, nid oeddem wedi'n darbwylo bod Llywodraeth y Cynulliad na llywodraeth leol wedi rhoi blaenoriaeth fawr i weithredu'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref. Er mwyn gwneud gwelliannau

---

<sup>1</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru*, 13 Medi 2007

sylweddol pellach o ran effeithlonrwydd ynni, ac i ateb targedau newid hinsawdd uchelgeisiol, mae angen i gynghorau roi mwy o flaenoriaeth i'r agenda effeithlonrwydd ynni ac mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ganolbwyntio ei strategaeth yn fwy ar ddylanwadu ar arferion defnyddwyr, yn arbennig yn y sector tai perchenogaeth breifat.

***Mae'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref wedi helpu i sicrhau rhai gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni yn y cartref yng Nghymru ond mae maint y cynnydd a gafwyd yn anodd ei fesur***

6. **Yr oedd y targedau ym 1997 yn rhy uchelgeisiol, ond mae rhywfaint o welliant wedi bod yn effeithlonrwydd ynni tai yng Nghymru.** Nododd cynghorau gyfartaledd o 9.6 y cant o welliant mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref rhwng 1997 a diwedd Mawrth 2006, er bod gwahaniaethau mawr rhwng cynghorau. Yr oedd perfformiad ymhell o gyrraedd targed gwreiddiol y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, a osodwyd yn 2007, sef gwelliant o 30 y cant, ond yr oedd yn amlwg pan gyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad gytundebau polisi yn 2004 fod y targed hwn wedi bod yn rhy uchelgeisiol. Felly cytunasom ei bod yn gwneud synnwyr i adolygu'r targed yn ystod cyd-drafodaethau ar gytundebau polisi. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i unrhyw dargedau ar gyfer cynghorau yn y dyfodol ar gyfer effeithlonrwydd ynni domestig i fod yn fwy penodol a mesuradwy na'r rhai a osodwyd fel rhan o gytundebau polisi 2004.
7. **Mae'n anodd mesur gwir effaith gwelliannau effeithlonrwydd ynni, oherwydd data anghywir ac anghysonderau yn y dulliau a ddefnyddir i gasglu data.** Mae'r data perfformiad ar effeithlonrwydd ynni domestig, yn arbennig yn y sector cartrefi preifat, yn annibynadwy am nifer o resymau. Yr ydym yn croesawu cydnabyddiaeth y tystion am y diffygion nodedig hyn, ond ystyriwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud mwy i gysylltu â chwmnïau ynni, er mwyn cael mynediad at y data defnyddio ynni a gedwir gan y cwmnïau. Disgwylwn weld camau perfformiad llawer mwy cadarn yn cael eu sefydlu fel rhan o'r cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni newydd cenedlaethol, ac ar gyfer mesur y cyfraniad domestig tuag at darged gostwng carbon o dri y cant Llywodraeth y Cynulliad.
8. **Methodd Llywodraeth y Cynulliad â sicrhau fod yr holl gynghorau yn cyflawni eu goblygiadau statudol i gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol.** Yr oeddem yn siomedig bod y gweithredu gan Lywodraeth y Cynulliad i annog cynghorau i gyflwyno'u ffigurau blynyddol statudol heb fod yn effeithiol ym mhob achos. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ehangach sut y gall Llywodraeth y Cynulliad weithredu polisi'n effeithiol trwy'r cynghorau os nad oes ganddo offerynnau neu

ddulliau gorfodi priodol y gall eu defnyddio. Yr ydym yn sicr yn disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad fod â threfniadau cadarn ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn cael cydweithrediad cynghorau gydag unrhyw ofynion adrodd am ffigurau o dan y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

9. **Os yw'r agenda effeithlonrwydd ynni yn y cartref am fod yn flaenoriaeth i gynghorau, mae angen iddynt ddatblygu cynlluniau gweithredu penodol a dyrannu adnoddau digonol ar eu cyfer.** Dim ond ychydig o gynghorau oedd wedi datblygu cynlluniau gweithredu penodol i gefnogi cyflawni amcanion y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, ac yr oedd amrywiadau mawr yn y graddau yr oedd cynghorau wedi neilltuo staff i gefnogi cyflwyno gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Fodd bynnag, mae i effeithlonrwydd ynni broffil llawer gwell erbyn hyn nag oedd ganddo pan basiwyd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 13 o flynyddoedd yn ôl, a disgwyliwn y bydd y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd yn gofyn llawer iawn mwy gan yr holl bartneriaid gyda golwg ar y gofynion arnynt.
10. **Gall cynnydd yn y cydweithio rhwng cynghorau helpu i leihau effaith cyfyngiadau o ran adnoddau a helpu ymhellach i ledaenu arferion da.** Mae lle i gynghorau gydweithio'n agosach ar faterion ynni yn y cartref, yn cynnwys rhannu adnoddau ac arferion da. Er ein bod yn cydnabod swyddogaeth Fforwm y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn hyn o beth, dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gallai effeithlonrwydd y Fforwm gael ei wella, fel rhan o ddatblygiad y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

*I fwrw ymlaen gyda'i strategaeth effeithlonrwydd ynni, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad a chynghorau ganolbwyntio ar y sector preifat a sicrhau bod newid yn digwydd o ran arferion defnyddwyr ynni.*

11. **Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gweithredu cam nesaf ei strategaeth effeithlonrwydd ynni.** Mae'r Ddeddf Arbed Ynni yn y cartref yn debygol o gael ei dirymu neu'i diddymu, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynhyrchu cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd. Mae ganddo hefyd darged gostwng carbon blynyddol o dri y cant. Cytunwn gyda'r tystion bod gwersi i'w dysgu o'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, yn arbennig mewn cysylltiad â mesur perfformiad, y gall Llywodraeth y Cynulliad eu defnyddio yng ngham nesaf ei strategaeth effeithlonrwydd ynni yn y cartref.
12. **Ymddengys bod cynnydd da wedi'i wneud i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector tai cymdeithasol dros y cyfnod dan sylw yn y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref ac mae angen i gam nesaf strategaeth Llywodraeth y Cynulliad**

**ganolbwyntio mwy ar y sector perchnogaeth breifat.** Mae deddfwriaeth, polisi ac ariannu yn ddealladwy wedi canoli gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni ar gartrefi sy'n ddioddef tlodi tanwydd ac ar dai'r sector cyhoeddus, yn hytrach nag ar y mwyafrif o dai sydd mewn perchnogaeth breifat. Croesawn y cynnydd da sy'n digwydd i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector tai cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni, er mwyn i gynnydd sylweddol pellach gael ei gyflawni, mae angen i Llywodraeth y Cynulliad gynyddu'r ffocws cyffredinol yn ei strategaeth ar y sector perchnogaeth breifat. Edrychwn ymlaen at fod hyn yn cael sylw blaenllaw yn y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

13. **Mae angen gwybodaeth eglur i helpu i sicrhau newid mewn arferion defnyddwyr.** Yr oedd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn gyffredinol yn canolbwyntio ar ddeunydd adeiladau, yn hytrach nag ar arferion pobl wrth ddefnyddio ynni. Fodd bynnag, dros y cyfnod dan sylw yn y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref mae'n debygol bod y defnydd o ynni wedi tyfu trwy'r defnydd cynyddol o beiriannau a dyfeisiau trydanol. Fe nodwn y dylai biliau ynni sy'n codi'n gyson annog pobl i adolygu eu harferion, ond ystyriwn fod angen gweithredu pellach. Felly croesawn gynigion Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu mwy o wybodaeth i ddeiliaid tai a defnyddwyr ynni.

## Argymhellion

14. Mae'n debygol y bydd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn cael ei dirymu neu'i diddymu, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd. Croesawn y gydnabyddiaeth y gall gwersi o'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref gael eu defnyddio yng nghanam nesaf strategaeth Llywodraeth y Cynulliad. Felly, wrth ddatblygu ei gynllun cenedlaethol newydd dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried yn drylwyr yr argymhellion a nodir isod.
- i. Yr oedd geiriad y targedau effeithlonrwydd ynni a gytunwyd rhwng cynghorau a Llywodraeth y Cynulliad fel rhan o gytundebau polisi 2004 mewn sawl achos, heb fod yn fanwl gywir. Yr oedd hyn ac anwadalarwydd y data perfformiad yn ei gwneud yn amhosibl asesu'n wrthrychol berfformiad cynghorau ac i ba raddau yr oedd y targedau wedi'u cyflawni. **Yr ydym felly'n cymeradwyo ac yn ail-adrodd argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth y Cynulliad:**
- a. **Osod targedau sy'n bendant, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn berthynol i amser;**

- b. **Sefydlu asesiad sylfaenol cyson a chadarn ar lefel cynghorau o ran effeithlonrwydd ynni;**
  - c. **Datblygu fframwaith mesur perfformiad dibynadwy i alluogi i gymariaethau gael eu gwneud rhwng cynghorau, yn cynnwys ymchwilio'n llawn i ddichonolrwydd defnyddio data defnyddio ynni yn y cartref sy'n cael ei gadw gan y cwmnïau ynni; a**
  - d. **Monitro ac adrodd ar berfformiad yn effeithiol yn erbyn y targedau.**
- ii. Rhoddodd llawer o gynghorau fawr ddim blaenoriaeth i'w cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, a gall fod yn anodd i Lywodraeth y Cynulliad weithredu'i pholisïau'n effeithiol trwy'r cynghorau os nad oes ganddi'r dulliau priodol neu'r camau gorfodi i'w defnyddio. **Argymhellwn, fel rhan o'i gynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd fod Llywodraeth y Cynulliad, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn datblygu trefniadau cadarn i sicrhau ei fod yn derbyn y lefel gofynnol o gydweithio gan gynghorau.**
  - iii. Mae lle i'r cynghorau gyd-weithio'n agosach ar faterion ynni yn y cartref, yn cynnwys rhannu adnoddau ac arferion da gyda'i gilydd. **Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn asesu effeithiolrwydd y Fforwm DAYC, ac yn datblygu eu cynigion ar sut y gellir gwella cydweithio yng nghyd-destun y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.**
  - iv. Er mwyn cyflawni cynnydd arwyddocaol pellach i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad gynyddu ffocws cyffredinol ei strategaeth ar y sector perchnogaeth breifat. **Argymhellwn y dylai camau i ddylanwadu ar arferion pobl sy'n byw mewn tai preifat, gyda golwg ar ddefnydd ynni yn y cartref ac arbed ynni, yn cael lle blaenllaw yn y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.**
  - v. Mae darparu gwybodaeth ddibynadwy yn hanfodol er mwyn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr angen i, a'r dulliau o gyflawni, gwell effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Fe nodwn y cynigion sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu mwy o wybodaeth i ddeiliaid tai a defnyddwyr. **Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn gwerthuso effaith ei gynigion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth ac yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i ddatblygu ymgyrchoedd yn y dyfodol.**



## **Mae'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref wedi helpu i sicrhau rhai gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni yn y cartref yng Nghymru ond mae'n anodd mesur maint y cynnydd**

### **Yr oedd y targedau a osodwyd ym 1997 yn rhy uchelgeisiol, ond mae rhai gwelliannau wedi bod yn effeithlonrwydd ynni tai yng Nghymru**

15. Yr oedd y DdAYC yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau nodi gweithredu oedd yn debygol o arwain at welliant sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni domestig. Diffiniodd y Swyddfa Gymreig (ar y pryd) 'welliant sylweddol' fel gostyngiad o 30 y cant yn y defnydd o ynni yn y cartref erbyn Mawrth 2007, o linell sylfaen 1997. Cytunodd y mwyafrif o gynghorau ar y pryd bod y ffigwr 30 y cant yn gyraeddadwy.<sup>2</sup>
16. Yn 2004 arwyddodd y cyfan o'r 22 cyngor yng Nghymru gytundebau polisi gyda Llywodraeth y Cynulliad oedd yn cynnwys targedau mewn perthynas â gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni domestig.<sup>3</sup> Esboniodd Mr Quinn pan edrychodd Llywodraeth y Cynulliad ar y fframwaith perfformiad ar gyfer y cytundebau polisi yr oedd yn amlwg nad oedd cynnydd ar y raddfa a ragwelwyd yn wreiddiol yn digwydd a bod y targed y DdAYC gwreiddiol ddim am gael ei gyflawni. Cymerodd y cynghorau'r cyfle i gyd-drafod geiriad eu targedau effeithlonrwydd ynni domestig fel rhan o'r dull gweithredu cyffredinol ar y cytundeb polisi. Dywedodd Mr Quinn mai'r nod oedd gosod ffigurau realistig a chyraeddadwy ar gyfer pob cyngor.<sup>4</sup>
17. Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar darged sylfaenol cyffredinol o 12 y cant fel gwelliant o ran effeithlonrwydd ynni rhwng 1997 a 2007: cytunodd rhai cynghorau ar ffigwr uwch; cytunodd eraill i anelu am y 12 y cant oherwydd eu bod mewn sefyllfa wannach.<sup>5</sup> Fodd bynnag, yr oedd geiriad targedau'r cytundeb polisi ar gyfer rhai cynghorau yn ei gwneud yn anodd asesu'n wrthrychol i ba raddau mae'r targedau wedi'u cyrraedd. Er enghraifft, nododd pedwar cyngor ar ddeg y byddent yn 'gweithio tuag at' gyflawni gwelliant o 12 y cant mewn effeithlonrwydd ynni domestig erbyn Mawrth 2007. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n glir beth sy'n cynrychioli cynnydd da.<sup>6</sup>
18. Yr oedd ffigurau a gyflwynwyd i Swyddfa Archwilio Cymru gan gynghorau yn dangos, ar gyfartaledd, eu bod wedi cyflawni gostyngiad o 9.6 y cant yn y defnydd o ynni domestig rhwng blwyddyn sylfaen 1997 a diwedd Mawrth 2006. Yr oedd y gostyngiad

---

<sup>2</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.1 ac Atodiad A paragraff 14

<sup>3</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.2 ac Atodiad 1

<sup>4</sup> Atodiad A, paragraff 15

<sup>5</sup> Atodiad A, paragraff 15

<sup>6</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraph 1.6

yn amrywio rhwng 6.3 y cant a 14.3 y cant.<sup>7</sup> Cyflymodd cyfradd y gostyngiad yn y defnydd o ynni a nodwyd gan gynghorau yn dilyn cyflwyno'r cytundebau polisi yn 2004. Awgryma hyn y gallai'r targedau cytundeb polisi fod wedi cyfrannu tuag at ymdeimlad o ffocws a gweithgarwch ychwanegol gan gynghorau, er efallai bod ffactorau cyfrannol eraill wedi bodoli hefyd.<sup>8</sup>

19. Cytunwn â'r tystion, o edrych yn ôl fe welwn fod y targed effeithlonrwydd ynni domestig o dri y cant a osodwyd ym 1997 wedi bod yn rhy uchelgeisiol. Yr oedd yn gwneud synnwyr felly, i adolygu'r targed yn ystod trafodaethau ar y cytundebau polisi. Croesawn y gwelliannau cyffredinol mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref dros y 10 mlynedd diweddaf y mae cynghorau wedi'u nodi, ond disgwyliwn y bydd unrhyw dargedau gan gynghorau yn y dyfodol ar gyfer effeithlonrwydd ynni domestig yn fwy penodol a mesuradwy na'r targedau a osodwyd fel rhan o'r cytundebau polisi 2004.

### **Mae'n anodd mesur gwir effaith gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni, oherwydd data anghywir ac anghysonderau yn y dulliau a ddefnyddir i gasglu data**

20. Mae anghysonderau yn y dulliau a ddefnyddir gan gynghorau i gasglu'r data perfformiad sy'n ofynnol ar gyfer yr adroddiadau blynyddol y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, diffyg data cywir i roi cig ar yr asgwrn fel petai yn eu hadroddiadau a thrafferthion i gael gafael ar ddata dibynadwy, yn arbennig gyda golwg ar y gwelliannau effeithlonrwydd ynni sy'n digwydd yn y sector preifat. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn ei gwneud yn amhosibl gwneud cymariaethau dibynadwy rhwng perfformiad gwahanol gynghorau neu i asesu gwir effaith y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref a chynlluniau arbed ynni eraill, yn nhermau gwelliannau i effeithlonrwydd ynni a gyflawnwyd mewn gwirionedd.<sup>9</sup>

21. Gan fod ffocws y DdAYC ar adeiladwaith a gwasanaethau mewn adeiladau, nid oedd y fframwaith mesur yn cymryd i ystyriaeth newid arferion defnyddwyr o ran defnyddio ynni na'r ynni a ddefnyddir gan beiriannau yn y cartref.<sup>10</sup> Ymhellach, o dan y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yr oedd unrhyw dai a adeiladwyd neu a ddymchwelwyd ers 1997 wedi'u heithrio o'r cyfrifiadau. Yng Nghymru, rhwng 1997 a Mawrth 2005, golygai hyn bod 68,821 o gartrefi newydd a 4,846 o gartrefi a gafodd eu dymchwel neu eu cau fel rhai heb fod yn ffit heb eu hystyried. Yn achos tai a adeiladwyd o'r newydd felly, nid oedd effaith rheoliadau adeiladu mwy caeth gyda golwg ar berfformiad defnyddio ynni heb eu cynnwys yn y cyfrifiadau.<sup>11</sup>

<sup>7</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.7 ac Atodiad 2

<sup>8</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.2

<sup>9</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.13 i 1.20

<sup>10</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.22 a 1.24

<sup>11</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.25

22. Cydnabu Mr Quinn bod diffyg data dibynadwy ar effeithlonrwydd ynni domestig, yn arbennig gyda golwg ar dai perchenogaeth breifat. Cytunodd bod angen gwybodaeth perfformiad mwy dibynadwy yng nghyd-destun gosod targedau ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol sydd i'w ddatblygu'n fuan, ac ar gyfer mesur perfformiad ar gyfer y cyfraniad domestig i darged gostwng blynyddol o dri y cant Llywodraeth y Cynulliad. Esboniodd Mr Quinn fod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio ar sawl model posibl ar gyfer mesur effeithlonrwydd ynni domestig, ond nad oedd wedi dod i unrhyw gasgliad pendant ac nid oedd eto unrhyw sail a gytunwyd ar waith ar gyfer mesur.<sup>12</sup>
23. Felly fe ofynasom i ba raddau yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi ymchwilio i'r posibilrwydd i gwmnïau ynni ddarparu data defnyddio, i roi sail fwy dibynadwy ar gyfer mesur perfformiad effeithlonrwydd ynni ar lefel awdurdodau lleol.<sup>13</sup> Dywedodd Mr Quinn wrthym, pe gallai'r cwmnïau ynni ddarparu data cywir ar y defnydd o ynni yn y cartref, yna byddai hynny'n ffynhonnell ddata cadarn iawn. Dywedodd fod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Bywyd Gwledig yn edrych ar y posibilrwydd fel rhan o'i waith ar fodolau posibl ar gyfer mesur effeithlonrwydd ynni domestig. Credai nad oedd y gwaith wedi dechrau o ddifrif eto a nododd y byddai'r rhannu data yn ddibynnol ar gael cydweithrediad gan y cwmnïau ynni.<sup>14</sup>
24. Croesawn gydnabyddiaeth Mr Quinn am y diffygion yn nibynadwyaeth y data a ddefnyddiwyd i fesur effeithlonrwydd ynni domestig, ac edrychwn ymlaen at weld mesurau perfformiad llawer mwy cadarn ar waith fel rhan o'r cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd, ac ar gyfer mesur y cyfraniad domestig at darged tri y cant gostwng carbon blynyddol Llywodraeth y Cynulliad. I'r perwyl hwn, anogwn Lywodraeth y Cynulliad i ymgysylltu, gyda mwy o frwdfrydedd nag mae'n ymddangos ei fod wedi gwneud hyd yma, yn uniongyrchol gyda'r cwmnïau ynni i benderfynu ar ddichonolrwydd cwmnïau'n darparu data defnyddio ynni domestig ar lefel awdurdodau lleol.

### **Methodd Llywodraeth y Cynulliad â sicrhau fod yr holl gynghorau'n cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol**

25. Dan y DAYC yr oedd gofyn i gynghorau gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol ar eu gweithgareddau effeithlonrwydd ynni, yn y dechrau at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn dilyn hynny at Lywodraeth y Cynulliad.<sup>15</sup> Fodd bynnag, nid oes un

---

<sup>12</sup> Atodiad A paragraff 10 a 31

<sup>13</sup> Atodiad A paragraff 32

<sup>14</sup> Atodiad A paragraff 33 i 41

<sup>15</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraffau 1 a 2

flwyddyn pan mae'r cyfan o'r 22 cyngor yng Nghymru wedi cydymffurfio â gofynion cyflwyno adroddiadau'r Ddeddf, a methodd rhai cyngorau â chyflwyno adroddiadau ar gynnydd am sawl blwyddyn.<sup>16</sup>

26. Esboniodd Mr Quinn fod Llywodraeth y Cynulliad wedi ysgrifennu at yr holl gynghorau'n rheolaidd i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau a'u gwahodd i gyflwyno'u hadroddiadau. Ychwanegodd, fodd bynnag, nad oedd y DdAYC yn darparu ar gyfer unrhyw orfodi uniongyrchol ar gynghorau nad oedd yn cyflwyno adroddiadau. Credodd Mr Peppin, yn rhannol oherwydd anwadalrwydd y data, efallai bod rhai cynghorau wedi gwario'u hadnoddau ar weithredu'r camau yn ymarferol, yn hytrach na chasglu data a'u rhoi mewn adroddiadau oedd â chymharol ychydig werth.<sup>17</sup>
27. Dywedodd Mr Quinn wrthym fod cyn Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad Cenedlaethol wedi trafod mater peidio cyflwyno adroddiadau yn 2007. Yn dilyn y trafodaethau hynny, anfonwyd llythyrau i gynghorau yn holi am eu cynnydd, yn arbennig y rhai nad oeddent wedi cyflwyno adroddiadau am sawl blwyddyn.
28. Nodwn sylw Mr Quinn bod Llywodraeth y Cynulliad bellach wedi derbyn yr holl adroddiadau terfynol (hyd at Fawrth 2007, diwedd y broses deng mlynedd) a deallwn y byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol eu gweld yn fuan.<sup>18</sup> Fodd bynnag, synnwyd a siomwyd ni bod rhai cynghorau wedi methu cydymffurfio â'u cyfrifoldebau adrodd statudol o dan amodau'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref. Er na ddarparodd y DdAYC unrhyw orfodaeth uniongyrchol ar gynghorau oedd yn peidio â chyflwyno'u hadroddiadau blynyddol, fe allai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi dyfeisio ei ddull ei hun.
29. Os yw gweithrediad effeithiol polisi Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau'n gwneud pethau penodol, yna dylai Llywodraeth y Cynulliad fod â'r peirianwaith i sicrhau bod cynghorau'n gwneud fel y dylent. Felly, disgwyliwn fod gan Lywodraeth y Cynulliad drefniadau cadarn ar waith i sicrhau ei bod yn cael cydweithrediad y cynghorau gydag unrhyw ofynion o ran cyflwyno adroddiadau o dan y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

### **Os yw'r agenda effeithlonrwydd ynni yn y cartref i fod yn flaenoriaeth gan gynghorau, mae angen iddynt ddatblygu cynlluniau gweithredu penodol a dyrannu digon o adnoddau ar ei gyfer**

30. Dim ond ychydig o gynghorau oedd wedi datblygu cynlluniau gweithredu penodol i gefnogi cyflawni amcanion y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref ac yr oedd graddau monitro ac adrodd ar weithgaredd ynni domestig mewn cynghorau yn amrywiol ac yn isel yn gyffredinol.<sup>19</sup> Yr oedd hefyd amrywiaeth eang yn y graddau yr oedd

<sup>16</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.9 a Ffigwr 1

<sup>17</sup> Atodiad A, paragraffau 25 i 29

<sup>18</sup> Atodiad A, paragraff 25

<sup>19</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.3 i 1.5

cynghorau'n neilltuo staff i gefnogi cyflawni gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref.<sup>20</sup> Mae'n anodd dod i'r casgliad a yw cyflogi staff i weithio'n llawn amser ar gyflawni amcanion y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn cynhyrchu gwell canlyniadau. Fodd bynnag, yr oedd pedwar o'r wyth cyngor oedd wedi ateb neu a oedd ar fin ateb eu targedau cytundeb polisi erbyn Mawrth 2007, a'r pedwar yma oedd yn cyflogi Swyddog y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref llawn amser.<sup>21</sup> Hefyd, yr oedd y mwyafrif o swyddogion DAYC arweiniol yn ystyried nad oedd ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau DAYC yn effeithiol.<sup>22</sup>

31. Yng ngoleuni'r amrywiaeth hwn o ran ymrwymiad a pherfformiadau amrywiol cynghorau, gofynasom a oedd cynghorau wedi canolbwyntio'n ddigonol ar bwysigrwydd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref a beth yr oedd yn ceisio'i gyflawni.<sup>23</sup> Dywedodd Mr Quinn wrthym fod Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu cefnogaeth amrywiol i gynghorau. Teimlai fod dadansoddiad adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ar y berthynas rhwng adnoddau cyngor a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, ar yr un llaw, a'r canlyniadau a gyflawnwyd ar y llaw arall, yn llawn perswâd. Ychwanegodd fod hon yn wers a ellid ei dysgu ar gyfer gwaith yn y dyfodol.<sup>24</sup> Cytunodd Mr Peppin, a chydabu bod ymrwymiad amrywiol wedi bod gan gynghorau i waith effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Fodd bynnag, nododd ei bod yn bwysig sylweddoli bod cynghorau'n wynebu sefyllfaoedd gwahanol ac y byddai angen iddynt benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain.<sup>25</sup>

32. O edrych ymlaen, tynnodd Mr Peppin sylw at y diddordeb cynyddol mewn arbed ynni, o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol mewn prisiau tanwydd yn y blynyddoedd diweddar a'r flaenoriaeth gynyddol sy'n cael ei rhoi i faterion amgylcheddol. Dywedodd fod newid yn yr hinsawdd bellach yn llawer mwy blaenllaw ar yr agenda nag yr oedd 13 mlynedd yn ôl, ac fod bellach lawer mwy o ymwybyddiaeth am y materion a beth sydd angen i gynghorau ei wneud. Ychwanegodd fod cynghorau yn cydnabod natur trawsbynciol arbed ynni a rhoi mwy o bwyslais ar annog gwell arferion gan yr holl staff i ostwng defnydd y cyngor ei hunan o ynni, yn ogystal â dod yn fwyfwy ymwybodol o effaith prisiau cynyddol ynni ar berchnogion cartrefi.<sup>26</sup>

---

<sup>20</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol paragraffau 2.14 i 2.17 a Ffigur 4

<sup>21</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 2.18

<sup>22</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol paragraff 2.19

<sup>23</sup> Atodiad A paragraff 21

<sup>24</sup> Atodiad A paragraff 22

<sup>25</sup> Atodiad A paragraff 23 a 66

<sup>26</sup> Atodiad A, paragraff 63

33. Mewn ymateb i gwestiwn am rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd Mr. Peppin bod fframwaith y Gymdeithas ar ddatblygu cynaliadwy yn darparu cyngor a gwybodaeth ymarferol ar beth all cynghorau ei wneud i ddod yn fwy cynaliadwy. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cyflwyno newid hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni fel categori rhagoriaeth yn ei wobrau blynyddol Rhagoriaeth Cymru, a fydd yn trosglwyddo neges bwysig ynglŷn â blaenoriaethu ac annog rhannu arferion da rhwng cynghorau.<sup>27</sup>
34. Sylweddolwn, am y rhesymau a nodwyd gan y tystion, fod gan effeithlonrwydd ynni broffil llawer uwch yn awr nag oedd ganddo pan basiwyd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 13 blynedd yn ôl. Yn ein barn ni, dim ond effaith cymharol fychan oedd gan y Ddeddf yn nhermau beth oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau weithredu arnynt i helpu i wella arbed ynni yn y cartref, a disgwyliwn y bydd y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd yn gofyn llawer mwy oddi wrth yr holl bartneriaid gyda golwg ar yr hyn y gallant ei wneud.

### **Gall cynnydd mewn gweithio ar y cyd rhwng cynghorau helpu i ostwng effaith cyfyngiadau o ran adnoddau a helpu ymhellach i ledaenu arferion da**

35. Yr oedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y dylai cynghorau gydweithio'n agosach ar faterion ynni yn y cartref, yn cynnwys rhannu adnoddau ac arferion da.<sup>28</sup> Dywedodd Mr Peppin fod cynghorau yn gwneud llawer mwy o ymdrech ynglŷn â'r agenda rhanbarthol ers Beecham, a dywedodd ef wrthym am y datblygiadau mewn gweithio rhanbarthol sy'n darparu cyfleoedd i gynghorau rannu gwybodaeth arbenigol ar faterion niferus.<sup>29</sup>
36. Dywedodd y tystion fod Fforwm y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, y mae holl Swyddogion y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn aelodau ohono, yn annog cyfnewid arferion da rhwng cynghorau ar nifer o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys cael mynediad at a gwario arian o ffynonellau allanol, rhannu gwybodaeth dechnegol a chydweithio ar gaffael.<sup>30</sup>
37. O gofio'r tensiynau mae cynghorau'n eu hwynebu gyda golwg ar flaenoriaethu adnoddau a gallu cyfyngedig Swyddogion y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn aml i wneud holl ddyletswyddau'r Ddeddf, fe fyddai'n ymddangos fod maes effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn faes a fyddai'n benthyca'i hun i weithio ar y cyd, ar sail ranbarthol a rhwng cynghorau sy'n wynebu'r un math o heriau.<sup>31</sup> Sylweddolwn fod y Fforwm DAYC yn chwarae rôl bwysig yn

<sup>27</sup> Atodiad A paragraffau 67 a 68

<sup>28</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, argymhelliad iii ar dud 10 ac 11

<sup>29</sup> Atodiad A paragraff 70

<sup>30</sup> Atodiad A paragraff 47 a 52

<sup>31</sup> Atodiad A paragraff 70

hyn o beth, ond dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gellid gwella effeithlonrwydd y Fforwm fel rhan o ddatblygiad y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni yn y cartref.

## **Wrth fwrw ymlaen â'i strategaeth effeithlonrwydd ynni, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad a'r cynghorau ganolbwyntio ar y sector preifat ac ar sicrhau newidiadau yn arferion defnyddwyr**

### **Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynllunio i weithredu cam nesaf ei strategaeth effeithlonrwydd ynni**

38. Dywedodd Mr Quinn wrthym, fel rhan o'i strategaeth i ddelio gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i gynhyrchu cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol. Hefyd mae gan Lywodraeth y Cynulliad darged gostwng carbon blynyddol o dri y chant, a fydd yn cynnwys cynlluniau a thargedau'r sector cyhoeddus a domestig.
39. Esboniodd Mr Quinn bod y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn annhebygol o barhau yn ei ffurf bresennol a bod angen iddo gael ei ddirymu neu'i ddiddymu gan nad yw'n ffitio'n briodol i'r cyd-destun presennol, yn arbennig y ddyletswydd sy'n dod i'r amlwg o Fesur Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU a fydd yn cynnwys llawer o'r gwaith arbed ynni yn y cartref a symbylwyd gan y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref. Cydnabu Mr Quinn, fodd bynnag, bod problemau a gwersi yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref sydd angen eu hystyried wrth ddatblygu'r trefniadau newydd.<sup>32</sup> Soniodd Mr Peppin ei bod yn sylfaenol i wella dulliau mesur perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn y sector preifat.<sup>33</sup>
40. Croesawn gydnabyddiaeth Mr Quinn y gall y gwersi a ddysgir o'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref gael eu defnyddio yng ngham nesaf strategaeth effeithlonrwydd ynni domestig Llywodraeth y Cynulliad. Yn benodol, yr ydym yn ystyried y diffygion gyda golwg ar fesur perfformiad yn glir yn amlwg yn fater sydd angen sylw fel rhan o'r cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

### **Ymddengys bod cynnydd da wedi'i wneud i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector tai cymdeithasol dros y cyfnod dan sylw gan y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, ac mae angen i gam nesaf strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ganolbwyntio mwy ar y sector tai perchenogaeth breifat**

41. Mae tystiolaeth fod cynghorau wedi gwneud buddsoddiadau mawr mewn gwelliannau arbed ynni yn eu stoc tai eu hunain yn y blynyddoedd diweddar.<sup>34</sup> Hefyd, mae deddfwriaeth, polisi ac ariannu wedi canoli gwelliannau o ran arbed ynni ar gartrefi

---

<sup>32</sup> Atodiad A paragraff 10

<sup>33</sup> Atodiad A paragraff 16, 74 a 75

<sup>34</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol paragraffau 3.1 a 3.2

sy'n dioddef tlodi tanwydd a thai'r sector cyhoeddus, yn hytrach nag ar y mwyafrif sef y sector sydd mewn perchnogaeth breifat.<sup>35</sup>

42. Mae'r ysgogiad ar gyfer gwaith o'r fath wedi dod o nifer o ffynonellau, yn cynnwys yr angen i ateb y safonau isaf y Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012, a sgysiau gyda thenantiaid cynghorau sydd wedi helpu cynghorau i flaenoriaethu gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni.<sup>36</sup> Oherwydd y cynnydd sy'n digwydd, mae'r cyfleoedd sydd ar ôl ar gyfer gwella arbed ynni mewn tai o eiddo cynghorau yn lleihau, a rhaid i gynghorau'n awr ddechrau rhoi sylw i'r problemau a brofir gan gartrefi 'anodd eu cynhesu' megis y rhai sydd â waliau solet. O ganlyniad, rhaid i enillion effeithlonrwydd ynni sylweddol yn y dyfodol ddeillio o wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi'r sector preifat. Fodd bynnag, er y gall cynghorau ddarparu peth cymhellant i ddeiliaid tai preifat i wneud gwelliannau yn eu tai, nid ydynt yn gallu arfer cymaint o ddylanwad dros dai mewn perchnogaeth breifat ag y gallant dros dai cyngor.<sup>37</sup>
43. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cydnabod bod canolbwyntio ar gartrefi sy'n dioddef tlodi tanwydd wedi arwain at ychydig o ymgymryd â champau effeithlonrwydd ynni gan y rhai y tu allan i'r sector tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys am gymorth grantiau. Ystyria'r Ymddiriedolaeth, os na all galw am gamau effeithlonrwydd ynni gael eu symbylu o fewn y sector tai preifat, ni fydd y DU yn ateb ei tharged cenedlaethol ar gyfer gostwng allyriadau carbon o 60 y cant erbyn 2050.<sup>38</sup>
44. Dywedodd Mr. Quinn wrthym y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio cadw'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sy'n canolbwyntio ar angen a thlodi tanwydd. Ystyriodd ef fod llawer o gartrefi sy'n anodd eu cynhesu o bosibl â phobl yn byw ynddynt a allai fforddio cael gwaith gwella wedi'i wneud, ac na ddylid tybio mai grantiau yw'r ffordd orau ymlaen ar eu cyfer hwy. Esboniodd, fel rhan o'r gwaith cyffredinol ar newid hinsawdd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno dylanwadu ar arferion a meddylfryd pobl. Mae'n ystyried cyfuniad o gefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer y rhai na allant weithredu drostynt eu hunain ac annog gweithredu gan y rhan a all wneud rhywbeth. O ganlyniad, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu nifer o gynlluniau sy'n bodoli a, lle bo'n briodol, gyflwyno newidiadau i sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau ohonynt.<sup>39</sup>

---

<sup>35</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol paragraffau 3.4 i 3.13

<sup>36</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol paragraff 3.1

<sup>37</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol paragraff 3.3 a 3.15

<sup>38</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 3.13

<sup>39</sup> Atodiad A para 73



45. Dywedodd Mr. Quinn wrthym hefyd am y rhaglen targedau gostwng allyriadau carbon, sy'n gofyn bod cwmnïau ynni yn darparu camau arbed ynni. Dywedodd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi edrych ar brofiad Llundain, lle'r oedd rhaglen wedi'i datblygu gyda chwmni ynni mawr wedi arwain at fuddsoddiad eithaf sylweddol mewn gosod camau arbed ynni mewn cartrefi preifat.<sup>40</sup>
46. Croesawn y cynnydd da yr ymddengys sydd wedi digwydd i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector tai cymdeithasol, er ein bod yn sylweddoli fod rhywfaint o ffordd i fynd mewn rhai ardaloedd os yw'r Safon Ansawdd Tai Cymru i'w gyrraedd erbyn 2012. Mae'n amlwg, er mwyn i gynnydd arwyddocaol pellach ddigwydd, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad gynyddu ffocws cyffredinol ei strategaeth ar y sector cartrefi preifat, ac edrychwn ymlaen at fod hwn ar flaen y gad yn y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

### **Mae angen gwybodaeth glir er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn gweld newidiadau mewn arferion defnyddwyr**

47. Yr oedd y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn gyffredinol yn canolbwyntio ar ddeunydd adeiladau'n gyffredinol, yn hytrach nag ar arferion defnyddwyr o ran defnyddio ynni. Felly gofynasom sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mynd i'r afael â mater defnydd cynyddol o ynni.<sup>41</sup>
48. Teimlai Mr Peppin fod hon yn broblem arwyddocaol, oherwydd gallai unrhyw enillion effeithlonrwydd o wella deunydd adeiladau gael ei orbwyso gan gynnydd mewn defnyddio ynni, a gysylltir yn benodol gyda mwy o ddefnydd o beiriannau a dyfeisiau trydanol. Dywedodd fod neges amlwg i'w throsglwyddo fel bod pobl yn meddwl yn ofalus cyn defnyddio dyfeisiau o'r fath, er y dylai biliau ynni sy'n cynyddu annog pobl i ail-feddwl am eu harferion. Yr oedd yn meddwl tybed a fyddai'n bosibl dilyn patrwm y sector preifat yn arloesi yn nhermau datblygu cynhyrchion mwy defnyddiol yn gymdeithasol a mwy cynaliadwy.<sup>42</sup>
49. Cytunodd Mr Quinn gyda dadansoddiad Mr Peppin a dywedodd wrthym fod mater ymarferol peiriannau yn debygol o fod yn ffocws amlwg ymgyrch gyhoeddusrwydd gychwynnol oherwydd mae'n fan lle gall pobl, trwy weithredu'n uniongyrchol, wneud y gwahaniaeth mwyaf. Ychwanegodd y gall Llywodraeth y Cynulliad ystyried darparu gwybodaeth ar bethau fel mesuryddion syml rhad, y gall pobl eu defnyddio i fonitro'r defnydd o ynni gan wahanol beiriannau yn eu cartrefi.

---

<sup>40</sup> Atodiad A, paragraff 80 a 81

<sup>41</sup> Atodiad A, paragraff 90

<sup>42</sup> Atodiad A, paragraff 45, 91 a 92

50. Dywedodd Mr Peppin wrthym, er mwyn gwella ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'i gilydd ar gynigion i ddarparu mwy o wybodaeth i gartrefi, yn arbennig mewn perthynas â newid hinsawdd a beth all deiliaid tai ei wneud i ostwng ei effaith. Yn ehangach ar newid hinsawdd, esboniodd Mr Quinn bod Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu asiantaeth i ddatblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr, i'w lansio'n ddiweddarach eleni, a ddylai helpu i godi proffil newid hinsawdd gyda'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru.<sup>43</sup>
51. Yn nhermau annog y rhai all ei fforddio i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, megis paneli solar neu feicrogynhyrchu ynni gwynt, cytunodd y tystion bod angen i ddeiliaid tai fod â gwybodaeth dda, glir a chywir. Yr oedd angen gwneud yn eglur rywfaint o'r wybodaeth am faterion ynni adnewyddadwy, fel, pan fo pobl yn ystyried gwneud beth sydd mewn gwirionedd yn fuddsoddiad sylweddol, megis pan fônt yn cael system gwres canolog newydd, eu bod yn gwneud hynny ar sail gwybodaeth sy'n gynhwysfawr ac yn ddibynadwy.<sup>44</sup>
52. Yr ydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod angen i bobl gael gwybodaeth o ansawdd dda i'w galluogi i wneud dewisiadau doeth, a nodwn y cynigion sy'n cael eu datblygu i ddarparu mwy o wybodaeth i ddeiliaid tai a defnyddwyr. Disgwyliwn i Lywodraeth y Cynulliad werthuso effaith y camau hyn i ddylanwadu ar arferion defnyddwyr ac edrychwn ymlaen at weld y canlyniadau maes o law.

---

<sup>43</sup> Atodiad A, paragraffau 76 a 93

<sup>44</sup> Atodiad A, paragraff 86 i 89

# Atodiad A





**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Archwilio  
The Audit Committee**

**Dydd Iau, 15 Mai 2008  
Thursday, 15 May 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Datganiad gan y Cadeirydd  
Statement by the Chair
- 4 Ymddiheuriadau a Dirprwyon  
Apologies and Substitutions
- 4 Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru  
Delivering the Home Energy Conservation Act in Wales
- 16 Cynnig Trefniadol  
Procedural Motion

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal,  
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.  
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**  
**Assembly Members in attendance**

Bethan Jenkins	Plaid Cymru The Party of Wales
David Melding	Ceidwadwyr Cymreig (Cadeirydd y Pwyllgor) Welsh Conservatives (Committee Chair)
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr Cymreig (yn dirprwyo ar ran Darren Millar) Welsh Conservatives (substituting for Darren Millar)
Ann Jones	Llafur (yn dirprwyo ar ran y grŵp Llafur) Labour (substituting on behalf of the Labour group)

**Eraill yn bresennol**  
**Others in attendance**

Jeremy Colman	Archwilydd Cyffredinol Cymru Auditor General for Wales
Paul Dimblebee	Swyddfa Archwilio Cymru Wales Audit Office
Louise Fleet	Swyddfa Archwilio Cymru Wales Audit Office
Ian Gibson	Is-bennaeth, Yr Uned Llywodraethu Corfforaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Deputy Head, Corporate Governance Unit, Welsh Assembly Government
Tim Peppin	Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Director of Regeneration and Sustainable Development, Welsh Local Government Association
John Scrimgeour	Swyddfa Archwilio Cymru Wales Audit Office
Matthew Quinn	Cyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Llywodraeth Cynulliad Cymru Director for Environment, Sustainability and Housing, Welsh Assembly Government

**Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol**  
**Assembly Parliamentary Service officials in attendance**

John Grimes	Clerc Clerk
Abigail Phillips	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 9.46 a.m.*  
*The meeting began at 9.46 a.m.*

**Datganiad gan y Cadeirydd**  
**Statement by the Chair**

[1] **David Melding:** Good morning and welcome to the Audit Committee. I regret to announce that, at the moment, we do not meet our quorum. I therefore suspend the meeting until 10 a.m., as I anticipate that the requisite number of Members will then be present. I now suspend our proceedings for 15 minutes.

*Datganwyd nad oedd y cyfarfod yn gwneud cworwm am 9.46 a.m., ac ataliwyd y cyfarfod.  
The meeting was declared inquorate at 9.46 a.m. and suspended.*

9.57 a.m.

### **Ymddiheuriadau a Dirprwyon Apologies and Substitutions**

[2] **David Melding:** The Audit Committee will now reconvene, as we have established a quorum with the arrival of Ann Jones. I welcome everyone to the meeting.

[3] I will make the usual housekeeping announcements. These proceedings will be conducted in Welsh and English, and, when Welsh is spoken, a translation is available on channel 1 of the headset. Should you be hard of hearing, amplification of sound is available on channel 0. Please switch off all electronic equipment completely—that means not left on silent mode, because even the silent mode will interfere with our recording equipment.

[4] We do not anticipate a routine fire alarm test this morning, so should you hear an alarm, please follow the ushers' instructions; they will help you to leave the building safely.

[5] We have received several apologies this morning: from Lesley Griffiths, Darren Millar, Lorraine Barrett, Eleanor Burnham, Irene James, Janice Gregory and Chris Franks. Jonathan Morgan is substituting for Darren Millar, and the Labour group has sent Ann Jones as a substitute this morning. I am grateful to Jonathan and Ann for helping us out this morning so that we are able to conduct our proceedings.

9.59 a.m.

### **Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru Delivering the Home Energy Conservation Act in Wales**

[6] **David Melding:** The Home Energy Conservation Act 1995—or HECA, as it is commonly known, and as it will no doubt be referred to this morning—was the first piece of UK legislation to place energy efficiency responsibilities on local government. The Act placed a statutory duty on each local authority, as an energy conservation authority, to submit an initial report identifying energy conservation measures that were likely to result in significant improvement in the energy efficiency of residential accommodation in its area, and to report annually on the progress made in implementing the measures set out in the original report.

10.00 a.m.

[7] The report of the Auditor General for Wales evaluates the overall progress made since 1997 in improving energy efficiency in residential housing, and makes recommendations about how some of the barriers to further improvements might be overcome. I should like to welcome to the meeting—and apologise once again for the delay—Matthew Quinn, the director of the Environment, Sustainability and Housing Department of the Welsh Assembly Government, and Tim Peppin, director of regeneration and sustainability at the Welsh Local Government Association. Good morning, gentlemen—we are pleased to see you here to help us with your evidence.

[8] I will start by asking a general question. I remind you that the auditor general's report was published in September 2007, which is a while ago. It indicates that there are a number of



uncertainties about the future direction of these initiatives. I wonder whether you have anything that you want to say about the auditor general's first recommendation, about the need for clearer direction now that the first 10 years is over. I put that question to both of you, but perhaps Matthew would like to start.

[9] **Mr Quinn:** It is quite unusual for us to be able to look back—almost 13 years now—to the origins of this legislation, to see how it went. One of the reasons that the auditor general thought that it was valuable to bring this report forward was because it started as part of the programme for improvement. Looking at the local authorities, there are lessons for target-setting over this next period. Perhaps I will say a little about where we are on that.

